MEILYR BRYDYDD (fl. c. 1100-37), pencerdd llys

Enw: Meilyr Brydydd
Plentyn: Gwalchmai ap Meilyr
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pencerdd llys
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Gruffudd ap Cynan yn Aberffraw. Ystyrir ef y cyntaf o'r Gogynfeirdd. Yn ei hanes ef a'i fab Gwalchmai a'i yrion y ceir yr enghraifft debycaf yng Nghymru i'r hyn y gwyddom gymaint mwy amdano yn Iwerddon, sef teulu yn etifeddu'r swydd o bencerdd llys i linach arbennig o dywysogion, a chan y beirdd hyn eu treftadaeth dirol oblegid eu swydd farddol. Ceir Trefeilyr a Threwalchmai ym Môn hyd heddiw. Dangosodd Syr J. Morris-Jones fod anhawster amseryddol ar ffordd derbyn awduriaeth Meilyr Brydydd ar yr awdl-gywydd marwnad i Drahaearn fab Caradog a Meilyr fab Rhiwallon a laddwyd ym Mynydd Carn (1081). Nid oes ddim arall ar gael o'i waith ond marwnad Gruffudd ap Cynan (1137), a marwysgafn y bardd ei hun. Yn y gyntaf fe geir, fel y gwelodd Syr J. E. Lloyd, y mynegiant cyntaf sydd ar gael mewn barddoniaeth Cymraeg o'r adfywiad Cymreig a gydredai â chynnydd tywysogion Gwynedd yn y 12fed ganrif. Yn y farwysgafn dymuna Meilyr gael ei gladdu yn Enlli. Nid yw'n debyg iddo oroesi ei brif noddwr yn hir, ac yr oedd Gwalchmai, ei fab, eisoes yn ddigon hen i dderbyn rhoddion tywysogion Gwynedd cyn 1132 (gweler Hendreg. MS. 13a).

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

Barddoniaeth yn *Llawysgrif Hendregadredd* (1933)

The Myvyrian archaiology of Wales (Denbigh 1870), 140-2

J. Morris-Jones, *Cerdd Dafod sef celfyddyd barddoniaeth Gymraeg* (Rhydychen 1925), xxiv

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

J. Lloyd-Jones, *The Court Poets of the Welsh Princes*

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Meilyr Brydydd

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q2670636

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu